# Theatr Clwyd

# Cerddor Cysylltiol

## Pecyn Recriwtio



Milky Peaks (2022)


Cymru Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council



*Home, I'm Darling* (2019)



**Liam Evans-Ford**
Cyfarwyddwr Gweithredol

**Kate Wasserberg**
Cyfarwyddwr Artistig

Ar hyn o bryd mae Theatr Clwyd yn gweithredu yn y cyfnod mwyaf cyffrous, a hollbwysig, yn ei hanes.

Yn 2021, daeth y theatr yn ymddiriedolaeth elusennol annibynnol ac yn grŵp masnachu, ar ôl cael ei gweithredu gan Gyngor Sir y Fflint ers iddi agor yn 1976.

Yn ogystal â'r model llywodraethu newydd, mae Theatr Clwyd yng nghanol y cyfnod adeiladu ar gyfer ailddatblygiad cyfalaf mawr y prif gyfleuster yn Sir y Fflint, prosiect gwerth £45m a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Celfyddydau Cymru. Bydd y prosiect yn ail-greu'r hyn y gall theatr a chanolfan gelfyddydol fod, sut gall fod yn gartref, yn lleoliad ar gyfer lles, yn fan dysgu, llawn chwerthin, hwyliog, a lleoliad o gydraddoldeb a chefnogaeth i'r holl gymunedau rydyn ni yma i'w gwasanaethu.

Rydyn ni hefyd bellach yn gyfrifol am weithredu Neuadd William Aston yn Wrecsam, lleoliad cyngerdd gyda lle i 1000 o bobl sy'n eiddo i Brifysgol Wrecsam, a ni sydd hefyd yn gyfrifol am redeg y gwasanaeth cerddoriaeth drwy ein helusen bartner – Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Theatr Clwyd.

Mae Theatr Clwyd yma ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ac mae'n hanfodol ein bod yn ymdrechu tuag at ein cenhadaeth ym mhopeth a wnawn – Gwneud y byd yn lle hapusach, un ennyd ar y tro.

Gobeithio eich bod wedi cyffroi am gael gwybod mwy am y swydd wag hon ac rydym yn edrych ymlaen at gwrdd â chi.




Junkyard (2017)

# Creu Theatr

Mae Theatr Clwyd wedi bod yn creu theatr o safon byd ym mryniau Gogledd Cymru ers 1976.

Ni yw un o'r ychydig theatrau yn y DU sydd â thimau adeiladu golygfeydd, creu gwisgoedd, props a chelf golygfaol o hyd i gyd yn fewnol ochr yn ochr â'r timau goleuo, sain a llwyfan. Rydyn ni bob amser yn anelu at gynnig yr amgylchedd cynhesaf i dimau creadigol gynhyrchu eu gwaith gorau.



To Dream Again (2016)

Mae gennym ni ddau ofod theatr parhaol – theatr bwa proseniwm 600 sedd a theatr stiwdio hyblyg 250 sedd.

Tra mae'r ailddatblygiad yn digwydd, rydyn ni wedi cymryd perchnogaeth o Theatr The Mix wrth ymyl prif adeilad y theatr, sef awditoriwm 270 sedd gyda rig goleuo LED mewnol gyda mwy na 500 o oleuadau.

Cyn dechrau'r ailddatblygiad, roedden ni'n cynhyrchu rhwng 12 a 14 o sioeau y flwyddyn, yn cynnwys cyfuniad o berfformiadau premiere byd ac ailddychmygu clasuron cyfoes gyda ffocws ar artistiaid wedi'u geni, eu magu neu sy'n byw yng Nghymru. Rydyn ni'n gwneud gwaith ar ein llwyfannau, ar-lein ac yn ein cymunedau, ac wedi gweithio gyda phartneriaid cydgynhyrchu mawr.
Mae gennym ni agwedd hyblyg at raglennu theatr, heb unrhyw dymhorau penodol o waith, a'r unig elfen sefydlog flynyddol yw ein Pantomeim Roc a Rôl ni sy'n denu tua 30,000 o bobl yn y gynulleidfa bob blwyddyn.



Orpheus Descending (2019)

Mae'r cynyrchiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cynnwys *Home, I'm Darling* (cydgynhyrchiad gyda'r National Theatre); *The Assassination of Katie Hopkins*; cynhyrchiad cyfranogol *The Great Gatsby*; *Isla* (cydgynhyrchiad gyda'r Royal Court, ac a ailgomisiynwyd wedyn ar gyfer teledu'r BBC); a *The Picture of Dorian Gray* a gyflwynwyd yn ddigidol.

Mae datblygu crëwyr theatr yn rhan greiddiol o'n dull ni o weithredu, ac rydyn ni bob amser yn ymdrechu i fynd ymhellach. Rydyn ni'n gweithio gyda phob disgyblaeth i gefnogi a meithrin y genhedlaeth nesaf o grëwyr theatr yn ein cymunedau ni, yng Nghymru, a thu hwnt, ac mae gennym ni bartneriaethau arwyddocaol wedi'u sefydlu gyda sefydliadau fel Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Rydyn ni'n cyflogi 400 o weithwyr llawrydd yn rheolaidd bob blwyddyn ar draws disgyblaethau theatrig ac artistig.

Rydyn ni wrth ein bodd yn creu theatr ar bob graddfa, ac yn ogystal ag aelodau tîm craidd gyda disgyblaethau creu theatr penodol, rydyn ni'n gwario rhwng £1.2m a £2m bob blwyddyn yn uniongyrchol ar gynhyrchu theatr.

Rydyn ni wedi ymrwymo i raglen Theatre Greenbook wrth i ni weithio i sicrhau bod ein gweithrediadau ni'n amgylcheddol gynaliadwy. Rydyn ni hefyd yng nghamau cynnar partneriaeth o'r enw Craidd, sydd â'r nod o wneud y sector theatr yng Nghymru y sector theatr mwyaf agored a hygyrch yn y byd.



Pavilion (2019)



Wave Me Goodbye (2019)

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Theatr Clwyd wedi ennill llu o wobrau mawreddog gan gynnwys gwobr y Sioe Gerdd Newydd Orau (Gwobrau UK Theatre), Cyflwyno Digidol (WhatsOnStage), Theatr Ranbarthol y Flwyddyn (The Stage) a gwobr Olivier am y Gomedi Newydd Orau i *Home, I'm Darling*.



Theatr Clwyd oddi uchod (2021)

# Ein Hadeilad

Agorwyd adeilad Theatr Clwyd yn Sir y Fflint yn 1976, ac mae'n syfrdanol o ran uchelgais, graddfa ac ansawdd y ddarpariaeth. Nododd ei restriad Gradd II yn 2018 ei fod yn '*enghraifft bwysig o adeilad celfyddydau dinesig a theatr ar ôl y rhyfel, yr enghraifft allweddol o'r math yma o adeilad yng Nghymru ac un o'r enghreifftiau mwyaf blaenllaw yn y DU.*'

Cyn ac ar ôl cyfalaf mae'r adeilad yn gartref i ddau brif awditoria, sinema, orielau, a sawl gofod ar gyfer digwyddiadau.

Bydd y buddsoddiad o £45m yn cynnig ystafelloedd ymarfer o ansawdd uchel, theatrau wedi'u hadfywio, a sawl gofod creu theatr addas i'r pwrpas ar gyfer pob un o'n timau mewnol.

Bydd gofod penodol ar gyfer hyfforddiant mewn creu theatr, ein gwaith gyda phobl ifanc, ein partneriaethau atgyfeirio ar gyfer iechyd a lles, a gofod ar gyfer digwyddiadau ac arlwyo i helpu i gynyddu'r refeniw sy'n cael ei gynhyrchu.



Prif Dŷ (2019)

Mae ein hardaloedd blaen tŷ yn cael eu hailddychmygu i fod yn agored a chroesawgar, gan fanteisio i'r eithaf ar ein lleoliad godidog, ac yn galluogi i ni ddod yn gyrchfan drwy'r dydd a all groesawu teuluoedd ifanc ar gyfer chwarae creadigol, yn ogystal â phobl sydd eisiau mwynhau bwyd a diod gyda ffrindiau a theulu. Bydd gan yr ardaloedd blaen a chefn tŷ y safonau hygyrchedd uchaf a ddarperir ar gyfer aelodau cwmnïau ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Bydd yr adeilad newydd yn ddi-nwy, bydd yn cynaeafu dŵr glaw ac ynni solar, a bydd yn gallu gweithredu'n niwtral o ran carbon, ar ddiwrnod da, yn positif o ran carbon.


Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu gyda Haworth Tompkins, y mae eu hadeiladau theatr blaenorol yn cynnwys y Royal Court yn Llundain, yr Young Vic, y Liverpool Everyman, y Bristol Old Vic, a'r National Theatre.


Rydyn ni i fod i dderbyn yr adeilad yn ôl yn haf 2024, heb unrhyw gynlluniau i agor i'r cyhoedd tan y gaeaf yn 2024, a'r disgwyl yw y bydd tymor llawn o raglennu yn dechrau yn 2025. **Cliciwch yma** am fwy o wybodaeth.









Delweddau o'r Adeilad wedi'u Hailddatblygu | By Howarth Tompkins



The Assassination Of Katie Hopkins (2018)

# Ein Busnes

Mae gan Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd a’r grŵp masnachu, ac Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Theatr Clwyd sy’n darparu’r holl addysg gerddorol yn y sir, drosiant blynyddol o tua £7m sy’n cynnwys cyllid cyhoeddus craidd ac incwm a enillir.

Ni yw trydydd cleient mwyaf Cyngor Celfyddydau Cymru, gan dderbyn £1.8m y flwyddyn ar hyn o bryd ac yn cynhyrchu tua £1.8 i £2m y flwyddyn drwy ein swyddfa docynnau.

Ym mis Gorffennaf 2022, dechreuodd Theatr Clwyd weithredu Neuadd William Aston, neuadd gyngerdd gyda 1000 o seddi yn Brifysgol Wrecsam. Mae'r safle, sydd wedi'i leoli yn ninas fwyaf Gogledd Cymru a dim ond 20 munud o'n canolfan ni yn Sir y Fflint, yn cynnig llwyfan ar gyfer gwahanol elfennau o raglennu, gan gynnwys comedi standyp proffil uchel a cherddoriaeth gyfoes a phoblogaidd. Mae'r bartneriaeth ehangach gyda'r brifysgol tuag at hyfforddi a datblygu’n cael ei gwella gan ein rheolaeth ar y lleoliad yma.

Cyn y pandemig roedden ni’n denu 200,000 o ymwelwyr i ddigwyddiadau byw ar ein safle ni yn Sir y Fflint, a 100,000 pellach yn bresennol ar gyfer gweithgareddau Ymgysylltu Creadigol a Cherddoriaeth. Rhwng 2018 a 2020, bu mwy na 500,000 o bobl yn gweld cynhyrchiad gan Theatr Clwyd mewn mannau eraill yn y DU.

Ar ôl y pandemig rydyn ni mewn sefyllfa gref, gyda niferoedd y cynulleidfaoedd ar lefel sy’n debyg i cyn y pandemig, ac yn meincnodi'n gadarnhaol o gymharu â lleoliadau tebyg eraill yn y DU. Mae gennym ni lefelau synhwyrol o gronfeydd wrth gefn, a pherthnasoedd cyllido hirsefydlog gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Sir y Fflint.



# Ein Cymuned


Mae ein gwaith ni gyda'n cymunedau wrth galon yr hyn rydyn ni'n ei wneud ac mae ganddo statws cyfartal â'r gwaith rydyn ni'n ei gynhyrchu a'i gyflwyno ar ein llwyfannau ni. Mae gennym ni un o'r timau Ymgysylltu Creadigol mwyaf yn y DU ac mae'r cwmni cyfan yn ymwneud â gweithgareddau cymunedol.

Gweithio mewn partneriaeth yw un o'r ffyrdd allweddol rydyn ni'n darparu cefnogaeth a gofal cymdeithasol yn y gymuned. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn bartner hirsefydlog i ni, a chryfhawyd hyn yn ystod y pandemig lle buom yn cyd-greu rhaglenni gyda rhai o'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn ein cymuned ni.

Mae gennym ni hefyd bartneriaeth hirsefydlog gyda'n Bwrdd GIG, Betsi Cadwaladr, yn gweithio gydag ysbytai a chartrefi gofal lleol i greu prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau a gwaith arobryn yn cefnogi'r rhai sydd â cholled cof. Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, rydyn ni wedi ffrydio ein cynhyrchiad Nadolig mawr i bob ysbyty yng Ngogledd Cymru, ac i fwy na 60 o gartrefi gofal yn y rhanbarth, am ddim.

Mae gennym ni weithdai wythnosol i bob oedran (mae ein haelod ieuengaf yn 4 oed a'n haelod hynaf yn 78 oed) ac rydyn ni'n ymdrechu i greu prosiectau sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol a chynhyrchiadau o safon uchel gyda'r grwpiau hyn ac ar eu cyfer.

Rydyn ni'n gweithio'n agos gydag ysgolion ledled Gogledd Cymru, gan fynd â phrosiectau cyfrifoldeb dinesig i ysgolion yn seiliedig ar angen a nodwyd, a bob wythnos rydyn ni'n cyflwyno mwy na 1000 o wersi cerddoriaeth drwy ein tîm mewnol o gerddorion.




Rydyn ni'n gwneud addewid i'n holl gyfranogwyr ni.
*Fe fyddwn ni bob amser yn gwrando fel na fyddwn ni byth yn rhoi'r gorau i ddysgu.*
*Fe fyddwn ni bob amser yn sicrhau eich bod chi'n gallu gwireddu eich breuddwydion.*
*Fe fyddwn ni'n creu gyda'n gilydd.*
*Fe fyddwn ni bob amser yn gartref i chi.*

Mwy o wybodaeth am ein gwaith ni ar gyfer cymunedau ar gael **yma**



*Lord Of The Flies* (2018)

# Ein Cwmni

Mae ein cwmni ni'n cynnwys ein 140 o aelodau cwmni craidd uniongyrchol, 100 o aelodau cwmni wrth gefn a thymhorol, mwy na 400 o artistiaid ac ymarferwyr llawrydd bob blwyddyn, a 150 o wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda ni yn rheolaidd fel tywyswyr ac ar draws disgyblaethau eraill.

Mae prif Fwrdd Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd yn cynnwys casgliad ymroddedig a medrus o ymddiriedolwyr.

Mae rhagor o wybodaeth am y bwrdd ar gael **yma**.



# Cerddoriaeth Theatr Clwyd

Mae Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Theatr Clwyd yn darparu cyfleoedd i blant, pobl ifanc ac oedolion gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol ac yn cefnogi llwybrau cynnydd hygyrch drwy wersi, grwpiau ac ensembles, perfformiadau, gweithdai a digwyddiadau. Mae gennym ni dîm dawnus o Gysylltiadau Cerddoriaeth gydag ystod o arbenigeddau cerddorol sy'n gweithio gydag ysgolion a chymunedau yn Sir y Fflint ac ar draws y rhanbarth. Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr o fewn teuluoedd Theatr Clwyd, yn enwedig y Tîm Ymgysylltu Creadigol, ac rydyn ni hefyd yn datblygu partneriaethau strategol gyda sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio gyda mwy na 3000 o blant, pobl ifanc ac oedolion bob wythnos, gan gynnwys 1900 o ddisgyblion blwyddyn 3 gyda'n rhaglen addysgu dosbarth cyfan Profiadau Cyntaf. Ochr yn ochr ag addysgu ym mhob un o ysgolion Sir y Fflint, rydyn ni hefyd yn cynnig gwersi y tu allan i'r ysgol drwy ein rhaglen Llwybrau Cerddoriaeth ac yn rhedeg 9 ensemble gan gynnwys corau, bandiau chwyth a grŵp pop a roc. Rydyn ni hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth ac yn ehangach, gyda'n cyrsiau Ensembles Tair Sir yn ymgysylltu â mwy na 120 o offerynwyr a chantorion ifanc o bob rhan o Ogledd Ddwyrain Cymru.



*Pavilion* (2019)

# Y Rôl

- **Teitl y Rôl -** Cerddor Cysylltiol
- **Math o Gontract -** Parhaol
- **Teulu -** Cerddoriaeth
- **Arbenigedd y tîm -** Cerddoriaeth
- **Oriau -** Gitâr: O leiaf 3 diwrnod yr wythnos. Chwythbrennau: 2 ddiwrnod yr wythnos
- **Cyflog cychwynnol -** £26,940 (pro-rata) y flwyddyn
- **Gradd cyflog -** M6-18
- **Yn atebol i -** Arweinydd Tîm Cerddorion Cysylltiol

Rydyn ni'n chwilio am athro ysbrydoledig ac ymroddedig i ymuno â'n tîm o Gysylltiadau Cerddoriaeth i gyflwyno gwersi, ensembles a gweithdai o ansawdd uchel ledled Sir y Fflint. Bydd mwyafrif yr addysgu mewn ysgolion, ond mae gwersi hefyd yn digwydd y tu allan i amser ysgol ac efallai y bydd cyfle i fod yn rhan o'n timau sy'n arwain grwpiau a gweithdai untro.

**Pwrpas y Rôl**

Bydd Cyswllt y Gwasanaeth Cerddoriaeth yn gyfrifol am gynllunio a chyflwyno addysgu offerynnol / lleisiol unigol a grŵp o ansawdd uchel, sesiynau gweithdai a rhaglenni ensemble yn ôl y cyfarwyddyd. Bydd hefyd yn chwarae rhan greadigol ac ymarferol wrth gyflwyno perfformiadau, gweithdai a digwyddiadau. Fel eiriolwr ar ran y gwaith rydyn ni'n ei wneud gyda phobl ifanc a'r gymuned ehangach, bydd yn cyfrannu at y weledigaeth gyffredinol sy'n adeiladu ar ein henw da am ddysgu creadigol o ansawdd uchel ac ymgysylltu ystyrlon

# Disgrifiad Swydd

**Cyfrifoldebau Allweddol**

- Ysbrydoli eich myfyrwyr gyda hoffter o ddysgu a chreu cerddoriaeth.
- Addysgu ystod o sgiliau cerddoriaeth cynyddol gan alluogi myfyrwyr i ddysgu, mewn ffordd bleserus, chwarae offeryn, canu a / neu ddefnyddio technoleg cerddoriaeth.
- Cyflwyno hyfforddiant cerddoriaeth o ansawdd uchel i ystod eang o fyfyrwyr ar draws ystod o leoliadau:
    - meithrin amgylchedd dysgu cefnogol a chynhwysol i bob disgybl.
    - defnyddio repertoire / deunydd cerddorol sy'n cynrychioli gwahanol arddulliau a diwylliannau.
    - archwilio a defnyddio ystod o strategaethau addysgu a dysgu.
    - cynllunio gwersi a rhaglenni dysgu.
    - monitro, asesu ac adrodd ar gynnydd cerddorol, personol a chymdeithasol.
    - cynnwys myfyrwyr wrth gynllunio sut maent eisiau dysgu a chreu cerddoriaeth.
    - datblygu adnoddau ac addasu arfer i weddu i anghenion a diddordebau pob dysgwr.
    - creu perthnasoedd cadarnhaol ac ysbrydoledig gyda myfyrwyr
    - cyfeirio a monitro'r niferoedd sy'n manteisio ar gyfleoedd cynnydd
- Arwain a chyfarwyddo ensembles / grwpiau cerddorol yn ôl y gofyn, gan baratoi deunydd addas, a chefnogi cyfleoedd perfformio neu recordio.
- Arwain gweithdai a digwyddiadau untro yn ôl yr angen, gan gydweithio â chydweithwyr o TC a sefydliadau partner
- Gweithio fel rhan o dîm a meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda holl staff yr ysgolion a'r lleoliadau, y Cysylltiadau Cerddoriaeth eraill, y rheolwyr, aelodau cwmni Theatr Clwyd a'r uwch arweinwyr.
- Cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol eraill am anghenion dysgu disgyblion, i nodi a chael gwared ar rwystrau i gynnydd a lles (er enghraifft, siarad â CAAA ysgol).
- Adlewyrchu'n rheolaidd ar a datblygu eich arfer proffesiynol eich hun; ymgymryd ag ystod o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, hyfforddiant a chyfleoedd rhwydweithio.
- Paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau neu achrediadau anffurfiol neu ffurfiol.
- Cadw cofrestri, nodiadau gwersi ac ymgymryd â thasgau gweinyddol eraill fel sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y gweithgareddau'n rhedeg yn esmwyth, gan gynnwys darparu data disgyblion, cyfathrebu ag ysgolion a rhieni a chefnogi gwerthusiad trefniadaethol cyffredinol.
- Cefnogi defnydd effeithlon o stoc ac adnoddau offerynnol, gan gynnwys cadw cofnodion manwl gywir.
- Ymgysylltu'n rhagweithiol â phrosesau a ffyrdd o weithio Cerddoriaeth Theatr Clwyd, gan gynnwys defnyddio systemau a meddalwedd ar-lein ar gyfer cadw cofnodion a chyfathrebu, a mynychu cyfarfodydd, hyfforddiant a chyfarfodydd cwmni ehangach yn ôl yr angen.
- Cadw at holl bolisïau Cerddoriaeth Theatr Clwyd a Theatr Clwyd gan gynnwys Iechyd a Diogelwch a Diogelu; hyrwyddo a diogelu lles plant a phobl ifanc, gyda chyfrifoldeb gorfodol i adrodd am unrhyw bryderon a nodir yn unol â pholisi Theatr Clwyd.
- Cefnogi nodau strategol Cerddoriaeth Theatr Clwyd, eiriol dros bŵer cerddoriaeth ac addysg gelfyddydol a gwaith Theatr Clwyd, a chefnogi recriwtio myfyrwyr parhaus ac ymgysylltu ag ysgolion a chymunedau.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol gan y Cyfarwyddwr Cerddoriaeth



Hansel & Gretel (2018)

# Person Specification

**Adran 1: Gwybodaeth a Phrofiad**

**Hanfodol**

- Profiad o ddysgu, creu a pherfformio cerddoriaeth a / neu hwyluso addysg cerddoriaeth
- Dealltwriaeth o fanteision gwahanol ffyrdd o ddysgu cerddoriaet
- Deall y rhwystrau y gall pobl ifanc eu hwynebu wrth geisio creu cerddoriaeth
- Deall sut mae dysgu cerddoriaeth yn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol.
- Dealltwriaeth o'r hyn sy'n ysgogi myfyrwyr, ac yn enwedig pobl ifanc, i ddysgu.
- Profiad o ymateb i her, a gwybodaeth am bryd a sut i ofyn am gymorth.
- Diddordeb mewn cyflwyno profiad dysgu myfyriwr-ganolog sy'n gwerthfawrogi ac yn ymateb i anghenion a diddordebau unigolion, o fewn a thu hwnt i'ch arbenigedd cerddorol.

**Dymunol**

- Profiad o helpu eraill i ddatblygu'n gerddorol, yn bersonol neu'n gymdeithasol.
- Profiad o addysgu neu hwyluso dysgu / datblygiad mewn amrywiaeth o leoliadau, a all gynnwys lleoliadau ysgol, ieuenctid neu gymunedol.
- Gwybodaeth am sut i wahaniaethu addysgu ar gyfer diddordebau, anghenion ac arddulliau dysgu ystod eang o bobl.
- Profiad o ddatblygu ac addasu adnoddau i ymateb i ddiddordebau ac anghenion dysgwyr.
- Ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o werth addysgol ystod amrywiol o genres ac arferion cerddorol.




# Y Rôl

**Adran 2: Sgiliau a Chymwyseddau**

**Hanfodol**

- Lefel uchel o hyfedredd yn eich maes arbenigedd, e.e. offeryn, lleisiol, technoleg cerddoriaeth
- Y gallu i gynllunio a chyflwyno profiadau dysgu o ansawdd uchel i ddenu a datblygu ystod eang o fyfyrwyr, yn gerddorol, yn bersonol ac yn gymdeithasol.
- Y gallu i greu amgylchedd dysgu diogel, a chyfathrebu'n effeithiol er mwyn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda myfyrwyr a chydweithwyr.
- Y gallu i berthnasu a gwrando ar fyfyrwyr i gynllunio gweithgareddau sy'n ymateb i'w diddordebau a'u hanghenion.
- Strategaethau ar gyfer rheoli dysgu mewn grwpiau; creu dysgu sy'n cynnig lefel o her ac annibyniaeth sy'n briodol i oedran, gallu, capasiti a chyd-destun.
- Trwydded yrru lawn, ynghyd â defnydd o gar ac yswiriant sy'n briodol i ddefnyddio'r car at ddibenion busnes yn ogystal â theithio i ac o'r gwaith.
- Agwedd hyblyg at waith a pharodrwydd i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau ar sail ad hoc, pan fo angen, i ddiwallu anghenion y sefydliad
- Mae'r swydd yma'n gofyn am archwiliad DBS uwch i'w adnewyddu bob tair blynedd gan fod Cerddoriaeth Theatr Clwyd yn gweithio'n agos gyda phobl ifanc ac ysgolion. Efallai y bydd angen gwiriadau a mesurau diogelu priodol eraill hefyd.

**Dymunol**

- Y gallu i adlewyrchu ar ymarfer addysgu, ei fireinio a'i ddatblygu.
- Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.
- Y gallu i weithio'n hyblyg, yn ymatebol ac yn ddigynnwrf dan bwysau.
- Dealltwriaeth o sut gall cerddoriaeth fod o fudd i'r plentyn / cymuned gyfan.
- Y gallu i annog dysgu annibynnol ar draws amrywiaeth o genres.



📷 *The Importance Of Being Earnest* (2017)

# Y Broses Recriwtio

**Dolen i ymgeisio:** [https://theatrclwyd.staffsavvy.me/apply/](https://theatrclwyd.staffsavvy.me/apply/)

**Dyddiad cau:** 14 Chwefror 2025, 5pm

**Cyfweliad:** Rownd gyntaf wythnos yn dechrau 17 Chwefror 2025

Efallai bydd y gwaith o lunio rhestr fer o'r ceisiadau a'r cyfweliadau ar gyfer y rôl yn cael eu cynnal tra bydd yr hysbyseb yn fyw; bydd yr hysbyseb yn cau ar ôl dod o hyd i'r ymgeisydd (ymgeiswyr) llwyddiannus. Anogir ymgeiswyr felly i gyflwyno ceisiadau cyn gynted â phosibl.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch â

Cath Sewell
**Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Theatr Clwyd**
Cath.Sewell@theatrclwyd.com

**Manteision i Aelodau'r Cwmni**

- Tocynnau am ddim ar gyfer sioeau a digwyddiadau Theatr Clwyd, yn amodol ar argaeledd a pholisi
- Gostyngiadau ym mar, caffi a siop anrhegion y theatr
- Cynllun pensiwn gyda NEST
- 32 diwrnod o wyliau blynyddol (gan gynnwys gwyliau banc), pro rata, gan gynyddu gyda hyd gwasanaeth
- Rhaglen Lesiant fewnol
- Mynediad at Iechyd Galwedigaethol
- Rydym hefyd yn aelod o'r sefydliad Rhieni a Gofalwyr yn y Celfyddydau Perfformio (PiPA)



# Cyfle Cyfartal

Rydyn ni eisiau i'n cwmni ni gynrychioli pob rhan o gymdeithas ac rydyn ni’n croesawu ceisiadau gan bawb.
Rydyn ni’n credu bod amrywiaeth yn ymwneud â dathlu a gwerthfawrogi unigolion. Mae cyfle cyfartal yn hollbwysig i ni ac rydyn ni’n anelu at roi'r cyfle i bawb gyflawni eu potensial.
Byddem yn ddiolchgar pe gallech gwblhau ein **harolwg Cyfle Cyfartal**.

Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi ym mha ffordd bynnag sy'n teimlo fwyaf addas i chi.

Os hoffech gael mynediad at y pecyn cais hwn neu gyflwyno eich cais mewn fformat arall, byddem yn hapus i siarad â chi am eich anghenion.

Mae Theatr Clwyd yn cydnabod bod y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn sgil bwysig a gwerthfawr yn y gweithle. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg.
Byddwn yn cysylltu â phob ymgeisydd aflwyddiannus i ddweud wrthynt nad ydynt wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad.